
# Gofal iechyd darbodus

## Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Datblygwyd y syniad o ‘**ofal iechyd darbodus**’ gan Gomisiwn Bevan yn 2013 mewn ymateb i’r her o sut i wella gofal iechyd yn ystod adegau o lymder (austerity). Ers hynny, mae wedi dod yn strategaeth iechyd pwysig i Lywodraeth Cymru. Nod y strategaeth yw darparu gofal iechyd sy’n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac yn gweddu i’w hamgylchiadau, gan osgoi gofal aneffeithiol nad yw’n fuddiol i’r claf. Mae’n galw ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol a’r llywodraeth i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon er mwyn atal gwastraff a pheidio ag achosi niwed. Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol. Maent hefyd yn rhan hanfodol o strategaeth Llywodraeth Cymru i wella iechyd a llesiant y genedl.




Mae gofal iechyd darbodus yn ganolog i *Cymru Iachach*, sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal. Mae hefyd yn llywio llawer o’r polisïau a’r trafodaethau ynghylch iechyd a gofal yng Nghymru heddiw.

**Egwyddorion gofal iechyd darbodus yw:**

- Cyflawni iechyd a llesiant gyda’r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal yn y broses drwy gydgynhyrchu.
- Gofalu am y rhai â’r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o’r holl sgiliau ac adnoddau.
- Gwneud yr hyn sydd ei angen, dim mwy, dim llai; a pheidio ag achosi niwed.
- Lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio ymarfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw.

**Mae Gofal Iechyd Darbodus yn canolbwyntio ar DAIR GWEITHRED:**
GWEITHRED 1: Profion, triniaethau a meddyginiaethau priodol.
GWEITHRED 2: Newid y model ar gyfer cleifion allanol.
GWEITHRED 3: Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i wella gofal iechyd.

**GWEITHRED 1 – Profion, triniaethau a meddyginiaethau priodol**

Mae hyn yn sicrhau bod pobl sy’n defnyddio gwasanaethau’r GIG yng Nghymru yn cael gofal a gwasanaethau sy’n cyfrannu at eu hiechyd a’u llesiant hirdymor yn ogystal â sicrhau’r canlyniadau uniongyrchol gorau. Mae ymchwil wyddonol wedi dangos bod llawer o bobl yn cael profion, triniaethau a meddyginiaethau nad ydynt yn cael llawer o fudd ohonynt yn glinigol. Os nad oes fawr o fudd iddynt, gallant achosi niwed corfforol neu seicolegol. Mae gwario arian ar driniaethau sydd fawr o werth yn cyfyngu ar allu’r gwasanaeth iechyd i fuddsoddi mewn arferion newydd, arloesol sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Mae ymgyrch ‘Too Much Medicine’ Cyfnodolyn Meddygol Prydain yn dogfennu tystiolaeth bod gormod o feddyginiaeth, gormod o ddiagnosis a gormod o brofion yn cael eu rhoi.  Mae GIG Cymru yn chwarae rhan flaenllaw mewn mudiad rhyngwladol i sicrhau bod pob prawf, triniaeth a meddyginiaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i iechyd pobl ac yn cydymffurfio â’r egwyddor o beidio ag achosi niwed. Caiff rhaglen ei datblygu i leihau nifer y presgripsiynau gwrthfiotig amhriodol a roddir yng Nghymru. Bydd y Grŵp Gweithredu Rhagnodi Darbodus yn sicrhau bod y GIG a’r cyhoedd yn cyfrannu at y frwydr fyd-eang yn erbyn ymwrthedd gwrthficrobaidd; a bydd yn arwain adolygiad i weld pa newidiadau y gellir eu gwneud i’r system presgripsiynau rheolaidd ledled Cymru er mwyn lleihau presgripsiynau diangen ac amhriodol.

**GWEITHRED 2 – Newid y model ar gyfer cleifion allanol.**

Darparodd y GIG yng Nghymru tua 3.1 miliwn o apwyntiadau i gleifion allanol y llynedd – mae hynny’n fwy na phoblogaeth y wlad. Roedd traean o’r rhain yn ymwneud â thri arbenigedd yn unig – trawma ac orthopedeg, offthalmoleg a llawfeddygaeth gyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd gan bob un o’r apwyntiadau hynny ddiben clinigol defnyddiol a gellid bod wedi cynnal llawer ohonynt mewn lleoliadau gofal iechyd eraill yn agosach at gartrefi pobl. Caiff prosiect cenedlaethol ei sefydlu er mwyn newid y model cleifion allanol yn sylweddol, gan sicrhau ei bod hi’n haws cael gafael ar gyngor arbenigol i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau ym maes gofal sylfaenol. Caiff rhai gwasanaethau eu darparu yn y gymuned.

**GWEITHRED 3 – Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i wella gofal iechyd**

Bydd y GIG yng Nghymru yn symud i system a fydd yn mynd i’r afael ag achosion sylfaenol clefydau ac yn atal salwch yn hytrach nag un sydd ond yn trin symptomau clefydau.  Bydd y GIG yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r diwydiant. Bydd hyn yn hyrwyddo prosesau cydgynhyrchu a gofal person-ganolog a fydd yn canolbwyntio ar sicrhau’r canlyniadau gorau i’r unigolyn yn seiliedig ar ei ddymuniadau.

- Bydd y rhaglen wella 1000 o Fywydau yn creu tasglu gwasanaeth cyhoeddus cenedlaethol.
- Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fyrddau partneriaeth rhanbarthol newydd gyda’r nod o integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a chydweithio â sefydliadau statudol a sefydliadau trydydd sector.